

CANLLAW

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

www.equalityhumanrights.com

Cynnwys

1.	Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn	3
1.1	Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?	3
1.2.	Deddf Cydraddoldeb 2010.....	3
1.3	Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?.....	3
2.	Dyletswyddau penodol yng Nghymru	4
2.1.	Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?	4
2.2	At bwy mae'r canllaw wedi ei anelu?	5
3.	Beth yw caffael?.....	6
4.	Cyd-destun Ewropeaidd.....	6
5.	Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran caffael	7
6.	Cymesuredd	7
7.	Trosolwg o'r gofynion caffael	8
8.	Asesu perthnasedd	8
9.	Tryloywder mewn manylebau	9
10.	Hysbysebu'n eang	9
11.	Dewis pwy i'w wahodd i dendro	10
12.	Meini prawf dyfarnu.....	10
13.	Amodau contractau.....	11
14.	Monitro perfformiad contractau	11
15.	Hyfforddiant	12

1. Cyd-destun ar gyfer y canllaw hwn

1.1 Beth yw awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru?

I ddibenion y canllaw hwn, mae awdurdod cyhoeddus rhestredig yng Nghymru (neu 'gorff rhestredig') yn un sydd wedi ei gynnwys yn Rhan 2 Atodlen 19 y Ddeddf fel y'i hategwyd a'i haddaswyd gan Orchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Pennu Awdurdodau Cymreig Perthnasol) 2011. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, awdurdodau lleol, cyrff addysg (yn cynnwys ysgolion), cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru.

1.2. Deddf Cydraddoldeb 2010

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf) â deddfau gwrthwahaniaethu blaenorol ynghyd mewn un Ddeddf sy'n eu disodli. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** (y 'ddyletswydd gyffredinol'). Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

1.3 Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau yn cael eu cynnwys yng nghynllun, polisiau a chyflawniad gwasanaeth a'u bod yn cael eu cadw dan arolwg. Bydd hyn yn sicrhau gwell deilliannau i bawb.

Mae gofyn i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at y tair elfen hyn fel tri 'nod' y ddyletswydd gyffredinol ac felly pan fyddwn yn trafod y ddyletswydd gyffredinol, rydym yn golygu'r tri nod.

Eglura'r Ddeddf fod rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- dileu'r anfanteision a brofir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig neu sicrhau eu bod yn cael yr effaith lleiaf posibl arnynt

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig pan fo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- annog pobl â nodweddion gwarchoddedig i gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Yn ôl y Ddeddf, taclo rhagfarn yw meithrin perthynas dda, ynghyd â hybu dealltwriaeth rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rheiny nad ydynt. Gall cyflawni'r ddyletswydd ymwneud â thrin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill, cyhyd na fo hyn yn mynd yn groes i ddarpariaethau eraill o fewn y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn cwmpasu'r nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – yn cynnwys diffyg cred
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond parthed y gofyniad i ddileu gwahaniaethu.

Defnyddir yr ymadrodd 'grŵp gwarchoddedig' weithiau i gyfeirio at bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig.

2. Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Diben eang y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig yn eu perfformiad o'r ddyletswydd gyffredinol ac i hwyluso tryloywder.

2.1. Pwy sydd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn berthnasol i gyrff rhestredig yng Nghymru ond nid i awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli sy'n gweithredu yng Nghymru. Efallai caiff y rhain eu cwmpasu gan ddyletswyddau penodol i Loegr. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru sydd wedi eu cynnwys dan y ddyletswydd gyffredinol hefyd wedi eu cynnwys dan y dyletswyddau penodol.

Mae'r dyletswyddau penodol yn cyflwyno'r camau y mae'n rhaid i gyrff rhestredig yng Nghymru gymryd er mwyn arddangos eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres o ganllawiau ar y dyletswyddau penodol.

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

Mae'r dyletswyddau'n cysylltu â'i gilydd a gellir canfod mwy o fanylion am bob agwedd yn y canllawiau canlynol:

1. Y canllaw hanfodol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (trosolwg)
2. Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
3. Ymgysylltiad
4. Asesu effaith
5. Gwybodaeth am gydraddoldeb
6. Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff
7. Caffael
8. Adrodd blynyddol, cyhoeddi a dyletswyddau gweinidogol (yn cynnwys arolwg a hygyrchedd)

2.2 At bwy mae'r canllaw wedi ei anelu?

Mae'r canllaw wedi ei ddatblygu'n bennaf i'r rhai sy'n gyfrifol am weithredu'r dyletswyddau penodol i Gymru, yn arbennig y rhai ar lefel uwch a gweithredol sy'n gyfrifol am bolisi a gwneud penderfyniadau. Bydd y canllaw hefyd yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd â diddordeb yn y gwaith a gweithgareddau awdurdodau cyhoeddus.

Mae'n bwysig bod swyddogion uwch sy'n gyfrifol am benderfyniadau mewn awdurdodau cyhoeddus (megis Prif Weithredwyr, Cadeiryddion ac aelodau Byrddau) yn derbyn cyfarwyddyd digonol ar y ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol. Dylai hyn eu paratoi i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i gydraddoldeb yn y sefydliad a dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel.

Mae'r blwch (blychau) testun isod yn amlinellu gofynion y rheoliadau ac mae'r rhain yn ymddangos hefyd yn y *Canllaw hanfodol*. Mae'r testun ychwanegol yn y canllaw hwn yn rhoi cyd-destun pellach ynghylch y dyletswyddau penodol.

3. Beth yw caffael?

Mae llawer o awdurdodau cyhoeddus yn contractio gyda sefydliadau allanol yn y sectorau preifat a'r trydydd sector i ddarparu gwaith, nwyddau neu wasanaethau. I ddiben y canllaw hwn, 'caffael' yw'r broses gytundebol a ddefnyddir lle bo awdurdod cyhoeddus yn cytuno i un arall gyflawni gwaith a/neu ddarparu nwyddau a neu wasanaethau ar ei ran.

4. Cyd-destun Ewropeaidd

Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith Ewropeaidd sy'n anelu at sicrhau tegwch rhwng cyflenwyr o'r DU ac aelod wladwriaethau eraill. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys rhyddid gweithwyr a nwyddau i symud, bod yn dryloyw, cymesuredd a thriniaeth gyfartal rhwng tendrwy.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i gontractau o bob gwerth. Yn ychwanegol, mae Rheoliadau'r DU sy'n gweithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd ar gaffael cyhoeddus yn cyflwyno rhai cyfyngiadau sy'n berthnasol mewn perthynas â chontractau sy'n uwch na gwerthoedd trothwy arbennig. Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn a bydd angen iddynt ystyried sut i hyrwyddo cydraddoldeb mewn ffordd sy'n cyd-fynd â rheolau caffael yr UE.

Ceir mwy o wybodaeth am y cyd-destun Ewropeaidd yn www.ogc.gov.uk.

Seilir y canllaw hwn ar gyfarwyddeb caffael 2004 yr UE a Rheoliadau Contract Cyhoeddus 2006 y DU a roddodd effaith iddo. Ym mis Chwefror 2014, diddymodd yr UE gyfarwyddeb 2004 a mabwysiadu pecyn o dair cyfarwyddeb newydd, gan gynnwys Cyfarwyddeb 2014/24/EU ar gaffael yn y sector cyhoeddus.¹ Disgwylir rheoliadau newydd tua diwedd 2014 i ddod â'r cyfarwyddebau i effaith yn y DU, a chaiff ein canllaw ei ddiweddarau i adlewyrchu'r darpariaethau newydd.

¹ http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=uriserv:OJ.L_.2014.094.01.0065.01.ENG

5. Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail **cytundeb perthnasol, rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru:**

- roi sylw dyledus i p'un a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- roi sylw dyledus i p'un a fyddai'n briodol nodi amodau yn ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Cytundebau perthnasol:

Mae'r ddyletswydd benodol ar gaffael yn berthnasol i gytundebau contract sy'n 'gytundebau perthnasol' yn unig, sydd yn y cyd-destun hwn yn golygu naill ai dyfarnu 'contract cyhoeddus' neu gwblhau 'cytundeb fframwaith', y rheoleiddir y ddau gan Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus (Cyfarwyddeb 2004/18/EC).

Mae'r Gyfarwyddeb yn rheoleiddio trefniadau sydd ar neu'n uwch na throthwyon dynodedig yr UE. Adolygir y trothwyon bob dwy flynedd ac mae gwahanol drothwyon yn berthnasol yn ôl natur y contract cyhoeddus, yn arbennig p'un a yw'r contract yn ymwneud â gwaith neu â nwyddau a gwasanaethau. Mae trothwyon ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn wahanol yn ôl natur yr awdurdod contractio.

Awdurdodau cyhoeddus yr ymdrinnir â nhw gan y ddyletswydd gyffredinol:

Pa un bynnag, mae'r gofyniad i fodloni'r **ddyletswydd gyffredinol** yn berthnasol i unrhyw gaffael waeth beth yw gwerth y contract.

Hyd yn oed ble, er enghraifft, mae darparu gwasanaeth yn cael ei gontractio allan gan awdurdod cyhoeddus i sefydliad arall, mae'r awdurdod cyhoeddus yn parhau i fod yn gyfrifol am fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Gall y sefydliad sy'n cyflawni'r gwaith neu'n darparu'r nwyddau neu wasanaethau fod yn ymarfer swyddogaeth gyhoeddus. Os felly, bydd wedi ei gynnwys gan y ddyletswydd gyffredinol i'r graddau hynny.

6. Cymesuredd

Wrth wario arian cyhoeddus rhaid i gorff roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Bydd ystyriaethau yn ymwneud â chydarddoldeb yn fwy perthnasol i rai gwasanaethau, nwyddau neu waith nag eraill.

7. Trosolwg o'r gofynion caffael

Mae awdurdod cyhoeddus yn parhau yn gyfrifol am fodloni'r ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo gwaith neu wasanaethau perthnasol yn cael eu contractio allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb o fewn prosesau caffael.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn berthnasol i unrhyw un sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus. Lle mae corff allanol yn cael ei gcontractio i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus perthnasol (gan gynnwys, mewn rhai achosion, darparu nwyddau neu waith) bydd yn rhaid eu gwneud yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau a all godi o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'u cynorthwyo yn briodol. Gall hyn gynnwys bod yn eglur am yr angen i ymdrin ag ystod o anghenion a lliniaru anfantais.

Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus yn ystod pob un o gamau'r broses caffael i'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb. Er enghraifft:

- hysbysebu a dewis pwy i'w wahodd i dendro
- drafftio'r gwahoddiad i dendro a'r meini prawf gwerthuso
- drafftio manylebau ac amodau contractau
- monitro, rheoli a gorfodi contractau.

Bydd angen i awdurdod asesu ei bolisïau a'i strategaethau caffael i ystyried a ydynt yn bodloni amcanion y ddyletswydd yn briodol. Dylai polisïau a strategaethau ymdrin â chynllunio a chyflawni gwaith caffael a rheoli a gorfodi contractau yn dilyn hynny. Teclyn defnyddiol i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu eu polisïau a'u strategaethau caffael yw'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF), sy'n ymdrin â chydraddoldeb ac yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

8. Asesu perthnasedd

Bydd cyflawni dyletswyddau penodol eraill Cymru ynglŷn ag asesu effaith, casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol ac ymgysylltiad yn helpu awdurdodau i nodi'r contractau hynny sy'n fwyaf perthnasol i gydraddoldeb a bodloni'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'n arbennig o bwysig penderfynu yn y cam cynllunio sut y gallai hyrwyddo cydraddoldeb gael ei gynnwys o fewn prosiect caffael unigol. Bydd hyn yn rhoi ffurf ar gynnwys cydraddoldeb y fanyleb a/neu amodau'r contract a bydd yn dylanwadu

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru ar y pwysau a roddir i ystyriaethau cydraddoldeb wrth ddewis tendrwy ac wrth werthuso tendrau.

Gall ymgysylltu â chyflenwyr posibl eu helpu i ddeall gofynion sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb. Rhaid cymryd gofal i beidio â rhoi mantais i gyflenwr posibl dros un arall. Rhaid i'r sector cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i annog sail cyflenwyr amrywiol, gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau sydd wedi eu dosbarthu fel busnesau a gefnogir. (Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn ac ystod eang o faterion caffael yn y Wefan Caffael Genedlaethol: www.sell2wales.co.uk)

Teclyn ar gyfer asesu perthnasedd yw'r templed Asesu Risg Cynaliadwy sy'n helpu sefydliadau i ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gwaith caffael penodol. Mae'r teclyn hwn yn ymdrin ag ystyriaethau cydraddoldeb.

9. Tryloywder mewn manylebau

Mae'r fanyleb yn ddisgrifiad ffurfiol o'r hyn y mae'r awdurdod yn ceisio ei brynu. Lle mae awdurdod cyhoeddus wedi penderfynu bod ystyriaethau cydraddoldeb yn berthnasol i'r gwaith, nwyddau neu wasanaethau, dylai'r fanyleb nodi mor eglur â phosibl beth mae ar yr awdurdod ei angen o ran canlyniadau neu fewnbynau gan y contractwr llwyddiannus.

Gall awdurdod nodi gofyniad mewn dogfennau tendro i gontractwyr arddangos sut y bydd y nwyddau, gwasanaeth neu waith yn cyflawni anghenion grwpiau o bobl yn rhannu nodweddion gwarchoddedig. Gallai enghreifftiau gynnwys gwahanol anghenion o ran iaith neu gyfathrebu neu sut y bydd niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth yn cael eu cynyddu ar gyfer gwahanol grwpiau sy'n cyrchu at y gwasanaeth. Gellid ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr fonitro ac adrodd am sut y mae'n bodloni'r canlyniadau hyn.

Gall manyleb tendro gyflwyno pa wybodaeth y bydd ar awdurdod ei hangen i'r contractwr ei chasglu ar ei ran, fel y gall fodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â chasglu gwybodaeth berthnasol.

10. Hysbysebu'n eang

Er mwyn annog sail cyflenwi mwy cynhwysol, yn arbennig i gynnwys sefydliadau llai, mae'r holl gyrff cyhoeddus mawr yng Nghymru wedi cefnogi Drysau Agored: y Siarter ar gyfer Caffael sy'n addas i SME. Un o ymrwymadau allweddol y siarter hon yw y dylai contractau gael eu hysbysebu mor eang â phosibl ac y dylai contractau mwy gael eu hysbysebu ar wefan Sell2Wales.

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru

11. Dewis pwy i'w wahodd i dendro

Gall caffael gynnwys cam dethol ac yn ystod y cam hwn mae awdurdodau cyhoeddus yn asesu ac yn dewis cyflenwyr potensial i dendro am gontract arbennig. Caniateir cynnwys meini prawf cydraddoldeb perthnasol yn ystod y cam hwn cyhyd ag y gwneir hyn yn eglur yn yr hysbyseb a bod y meini prawf yn berthnasol i'r contract.

Lle mae cydraddoldeb yn berthnasol iawn i gontract, gall fod yn gymesur cynnwys gofyniad mewn meini prawf dethol fod cyflenwyr potensial yn arddangos eu record o ran cydraddoldeb yn y gorffennol, mewn geiriau eraill, eu profiad a'u gallu i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn cyd-destun contract perthnasol.

Gallai awdurdod ymarfer ei hawl i allgau darpar dendrwr os canfu llys neu dribiwnlys ei fod wedi torri cyfraith gydraddoldeb, ac os ydynt yn methu â darparu tystiolaeth ynglŷn â sut y maent wedi cymryd camau i atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ond byddai angen i unrhyw benderfyniad o'r fath i allgau rhywun fod yn gymesur a gallai awdurdodau ddymuno gofyn am gyngor cyfreithiol yn yr amgylchiadau hyn.

Mae Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymhwyso Cyflenwyr (SquID) wedi ei datblygu yng Nghymru fel teclyn ar-lein. Mae SquID yn anelu at symleiddio a safoni'r broses cyn-gymhwyso i gwmnïau sy'n dymuno gwneud cais am gontractau'r sector cyhoeddus. Mae'n cynnwys adran ar gydraddoldeb, gan helpu cyrff cyhoeddus i ddewis cwestiynau dethol priodol. Am ragor o wybodaeth ymwelwch â:

<http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/better/vfm/publications/squid/?lang=en>

12. Meini prawf dyfarnu

Rhaid i awdurdod gyflwyno'r meini prawf dyfarnu manwl y bwriada eu defnyddio i asesu gwerth am arian y ceisiadau sy'n cystadlu. Dylid nodi'r rhain yn gynnar fel bod cyflenwyr posibl yn gwybod am y meini prawf y bydd eu ceisiadau yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Ar gyfer contractau sy'n ddarostyngedig i gyfarwydddebau caffael yr UE, rhaid i feini prawf y dyfarniad gael eu cyflwyno'n llawn yn hysbysiad y contract.

Derbynnir yn gyffredinol mai gwerth am arian yw'r cyfuniad gorau o gostau oes gyfan ac ansawdd i fodloni gofynion y defnyddiwr. Mae gwerth am arian yn y cyd-destun hwn fel arfer yn cyfateb i'r tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd i'r awdurdod cyhoeddus fel y cyflwynwyd hynny yng Nghyfarwydddebau'r UE.

Mae rheolau caffael cyhoeddus yn rhestru enghreifftiau o feini prawf y gellir eu defnyddio i nodi pa dendr a fyddai'n fwyaf manteisiol yn economaidd. Er nad yw'n cael ei restru'n benodol, gall cydraddoldeb ddal i fod yn berthnasol. Er enghraifft,

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru gallai materion cydraddoldeb gael effaith ar 'ansawdd' gwasanaeth neu waith, sy'n faen prawf a restrir.

Dylai'r pwysau y mae awdurdod yn ei roi i gydraddoldeb fel maen prawf gwerthuso (os o gwbl) fod yn gymesur i bwysigrwydd materion cydraddoldeb o fewn y fanyleb yn gyffredinol.

Mae gwefan sell2wales yn cynnig mwy o wybodaeth am hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffael. Mae hyn yn cynnwys Canllawiau Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd i sicrhau bod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfle i ddod â budd i gymunedau lleol. Mae'r canllawiau yn ystyried cynnwys cymalau cymdeithasol o fewn contractau gwasanaeth ac adeiladu ar raddfa fawr ac yn canolbwyntio yn arbennig ar greu hyfforddiant a gwaith i bobl mewn grwpiau o dan anfantais neu grwpiau lleiafrifol.

13. Amodau contractau

Mae amodau contractau yn penderfynu sut y cyflawnir y contract. Mae'r Swyddfa Masnach y Llywodraeth wedi cyhoeddi model safonol o amodau a thelerau sy'n cynnwys cymal ar gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.

Mae amodau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb yn rhai a ganiateir lle bo hynny'n berthnasol a lle maent yn cyd-fynd â gofynion y Gymuned Ewropeaidd. Dylai awdurdodau ystyried cynnwys amodau contractau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod staff, cyflenwyr ac isgcontractwyr yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Lle bo ystyriaethau cydraddoldeb yn hynod berthnasol i gaffael, gallai awdurdod ystyried amodau ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys er enghraifft, gofyniad i fonitro cyfansoddiad y gweithlu neu gyfraddau tâl.

14. Monitro perfformiad contractau

Y prawf eithaf o lwyddiant awdurdod cyhoeddus i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol mewn unrhyw broses gaffael yw perfformiad y contract a'r ffyrdd y mae'r awdurdod yn rheoli'r contract mewn cysylltiad â'r contractwr. Ychydig sydd i'w ennill o gynnwys rhwymedigaethau cydraddoldeb yn y fanyleb a/neu amodau'r contract os bydd awdurdod yn methu â mabwysiadu dulliau effeithiol o sicrhau bod y rhwymedigaethau hyn yn cael eu bodloni.

Bydd angen i awdurdod cyhoeddus gymryd camau i fonitro perfformiad y contract. Mae awdurdod yn cadw'r cyfrifoldeb am y ddyletswydd gyffredinol a bydd angen iddo weithredu'n brydlon os daw yn ymwybodol o berfformiad gwael neu o beidio â pherfformio o safbwynt gofynion cydraddoldeb contract.

15. Hyfforddiant

Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru wneud trefniadau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg eu gweithwyr ac i nodi ac ymdrin ag anghenion hyfforddi'r staff. Gall hyn gynnwys hyfforddiant wedi ei dargedu i staff sy'n cael eu cynnwys mewn prosesau caffael.

Mae Gwerth Cymru, Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant helaeth i'r sector cyhoeddus ar faterion yn ymwneud â chaffael, gan gynnwys cyrsiau sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o'r teclynnau a'r cynlluniau y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yn y canllaw hwn.

Caffael: Canllaw i awdurdodau cyhoeddus rhestredig yng Nghymru
Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com

Am gyngor, gwybodaeth neu ganllaw ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol ac am ddim.

Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn Testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 20:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)
10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post RHADBOST Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb
FPN4431

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau parthed y cyhoeddiad hwn at:

correspondence@equalityhumanrights.com. Bydd y Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau gwahanol

Ceir y canllaw hwn mewn fersiwn PDF a WORD yn Gymraeg a Saesneg o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiad gan y Comisiwn mewn fformat gwahanol, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com

© 2014 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2014

ISBN 978-1-84206-572-3